# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

**11 Chwefror 2020**
**12.15 – 13.15**
**Ystafell Friffio'r Cyfryngau yn y Senedd**

**Yn bresennol**

David Rees AC

David Melding AC

Vicki Evans - Pennaeth Ymgyrchoedd a Chyfathrebu - swyddfa Jeremy Miles AC

Paula Foley - Gweithiwr Achos i Jenny Rathbone AC

Llinos Madeley - Clerc y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sian Thomas - Arweinydd Tîm Ymchwil, Staff Comisiwn y Cynulliad

Laura Havens - Hafal

Louis Mertens - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Ann Bell - Adoption UK

Francesca Morris - Adoption UK

Elaine Speyer - Barnardos

Helen Howson - Comisiwn Bevan

Linda Newton - Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro

Graham Hinchey - Cyngor Caerdydd

Elizabeth Flowers – Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Vivienne Laing - NSPCC Cymru

Sharon Lovell - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

Siobhan Parry - Platfform

Claire Miller - Stepping Stones

John Wrangham – Stepping Stones

Chris Dunn – Voices from Care Cymru

Tim Crahart – Voices from Care Cymru

Simon Jones - Mind Cymru

Ian Johnson – Mind Cymru

Nia Sinclair – Mind Cymru

## 1. Croeso

Croesawodd David Rees AC (DR) bawb i gyd-gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl a’r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy’n Derbyn Gofal.

Nododd bwysigrwydd y testun heddiw, sef iechyd meddwl ac iechyd emosiynol plant sydd wedi bod mewn gofal, a nododd ei fod am ddysgu am ganfyddiadau'r gwaith 'Gwrando. Gweithredu. Ffynnu'. Croesawyd Vivienne Lang (NSPCC) a Chris Dunn (Voices from Care Cymru), a gofynnwyd iddynt drafod yr argymhellion.

## 2. Cyflwyniad ar 'Gwrando. Gweithredu. Ffynnu.'

Diolchodd Vivienne Laing (VL) i DR a David Melding AC (DM) am y cyfle i annerch y grŵp heddiw. Esboniodd fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael ei diwygio i gynnwys ffocws ar iechyd meddwl plant pan fyddant yn mynd i ofal am y tro cyntaf, ac yn hyrwyddo Cymru fel cenedl gyntaf y DU i ymrwymo i'r newid hwn.

Nododd fod y prosiect cydweithredol 'Gwrando. Gweithredu. Ffynnu.' rhwng NSPCC Cymru a Voices from Care Cymru yn ymdrin â sut mae'r gofyniad hwn yn cael ei weithredu, gan edrych ar sut mae anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu a'u cefnogi.

Amlygodd fod y prosiect wedi ymwreiddio yn rhaglen waith Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant o ystyried bod iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn bwnc sy’n cael ei drafod yn aml yn y grŵp, ac o ystyried ei fod hefyd yn gyfle i wyntyllu’r newidiadau i reoliadau, gan adeiladu ar waith y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac ymateb Llywodraeth Cymru.

Esboniodd fod y prosiect wedi ymgynghori â 21 o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal (rhwng 15 a 21 oed) a’i fod wedi cynnal arolygon gyda 26 o nyrsys plant sy'n derbyn gofal (PDG), a 44 o Swyddogion Adolygu Annibynnol yng Nghymru.

**Canfyddiadau**

Nododd fod asesiadau iechyd meddwl yn para tua 60 munud ar hyn o bryd, a bod pobl ifanc o’r farn: i) nad yw hyn yn ddigon o amser i asesu eu hanghenion o ran iechyd emosiynol ac iechyd meddyliol; a ii) efallai nad yn ystod yr asesiad cyntaf wrth i blentyn ddod i'r system am y tro cyntaf yw'r amser mwyaf addas i asesu anghenion iechyd meddwl y plentyn hwnnw o ystyried efallai y bydd mewn cyflwr cythryblus neu drallodus wrth ymgartrefu mewn amgylchedd newydd.

Canfyddiadau eraill:

- Eglurder annigonol ar gyfer ymarferwyr ynghylch sut i asesu iechyd emosiynol ac iechyd meddyliol pobl ifanc.
- Diffyg canllawiau a/neu hyfforddiant ffurfiol i ymarferwyr ynghylch iechyd emosiynol ac iechyd meddyliol.
- Nid yw rhieni maeth, athrawon, gweithwyr preswyl na gweithwyr cymdeithasol wedi cael digon o hyfforddiant i roi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal gyda'u hiechyd emosiynol a’i hiechyd meddyliol.
- Nid yw gweithio amlasiantaethol yn gweithio'n effeithiol. Mae pobl ifanc yn gorfod egluro eu hanes sawl gwaith, ac mae hynny’n cyfyngu ar gefnogaeth i'r plant hyn.
- Mae trothwy uchel ac amseroedd aros hir yn golygu ei bod yn anodd i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ledled Cymru.
- Os yw person ifanc yn cael ei symud allan o'r wlad, fe'i roddir ar waelod y rhestr aros.

**Argymhellion**

Nododd Chris Dunn fod angen ymrwymiad pawb sy'n ymwneud â’r mater. Pwysleisiodd mai deall barn y rhai sydd â phrofiad byw o fod mewn gofal yw'r naratif mwyaf defnyddiol ar gyfer gosod y llwyfan.

Nododd nad yw'r fframwaith asesu yn addas i’r diben o ran cyfeirio pobl ifanc at CAMHS, a bod yn rhaid wrth waith gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i wella'r fframwaith, megis ymestyn yr amser asesu.

Pwysleisiodd y gair 'cariad', gan awgrymu nad yw'r system bresennol yn dangos cariad, ond bod pobl yn y system yn gwneud hynny, a dywedodd fod yn rhaid i ofal a meithrin ddod yn rhan o’r broses asesu.

Tynnodd sylw at brofiad cadarnhaol un person ifanc o CAMHS, er nad oedd gwasanaethau dilynol ar gael i’r person hwnnw ar ôl y chwe wythnos gychwynnol gyda CAMHS. Nododd yr angen am wasanaeth pwrpasol, a mynegodd ei siom nad yw CAMHS ar gael i bob person ifanc i gael y gefnogaeth gywir.

Nododd bwysigrwydd grymuso pobl ifanc, a ddylai helpu i lunio'r argymhellion a bod yn rhan o'r gwaith cynllunio gwasanaethau llesiant ac iechyd meddwl. Roedd y rhai presennol am ddysgu am brofiad un person ifanc a gafodd fai ar gam am rywbeth tra oedd mewn gofal er budd y gofalwr, a bod y stori ffug wedi mynd yn ei ffeil, gan beri llawer o drallod a gofid iddo.

Dywedodd wrth y grŵp fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu enwi cyrff rhianta corfforaethol i hysbysu gwahanol wasanaethau o'r hyn y mae'n ei olygu i fod mewn gofal.

Ychwanegodd y dylid sicrhau bod gweithgareddau er lles emosiynol hefyd ar gael o ystyried bod llawer o bobl ifanc yn wynebu'r un materion â'r to hŷn o ran teimlo'n unig ac yn ynysig. Nododd fanteision presgripsiynu cymdeithasol.

Wrth gloi, dywedodd VL y bydd yr NSPCC a VFCC yn monitro'n agos i sicrhau bod plant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn cael y gwasanaethau cywir, sef mater sydd, meddai, yn uchel ar yr agenda.

Nododd nad oes gan Loegr na'r Alban ffocws ar iechyd emosiynol ar hyn o bryd, ond bod canolfan Anna Freud yn cynnal cynlluniau peilot yn Lloegr ar wahanol offer asesu iechyd meddwl. Ychwanegodd y bydd Cymru yn gallu dysgu oddi wrth y canfyddiadau.

Yn olaf, nododd Chris y pum pwnc allweddol y mae pobl ifanc yn tynnu sylw atynt.

1. Codi pwysigrwydd iechyd meddwl a lles emosiynol
2. Cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd â brodyr a chwiorydd, a goblygiadau peidio â chael gweld y teulu
3. Pwysigrwydd cael cariad ac effaith peidio â chael cariad ar eu lles
4. Sefydlogrwydd, ac effaith peidio â chael cartref diogel
5. Y teimlad sydd ganddynt yn aml fod gwahaniaethu yn eu herbyn a'r angen i dorri'r stigma

## 3. Trafodaeth

Diolchodd DR i CD a VL a gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Nododd Llinos Madeley fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn edrych ar y gwaith eto ers yr adroddiad gwreiddiol. Ychwanegodd i'r Pwyllgor ysgrifennu at Weinidogion yr haf diwethaf a'i fod wrthi'n cysylltu â grŵp rhanddeiliaid ieuenctid Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.
Nododd Sharon Lovell ei diddordeb yn rôl rhianta corfforaethol. Cytunodd y dylai gofal fod yn gyfrifoldeb pawb, nid gwasanaethau cymdeithasol yn unig.

Nododd yr anawsterau o safbwynt eiriolaeth ac o ran plant yn cyrchu CAMHS a gwasanaethau, a'r anghysondeb ag iechyd o ran ansawdd mynediad sydd heb

ddatblygu rhyw lawer, fe ymddengys. Gofynnodd a fu unrhyw gynnydd o ran y fframwaith asesu.

Dywedodd VL fod nyrsys PDG ar hyn o bryd yn defnyddio eu profiad eu hunain i greu cynlluniau gofal a chymorth. Ailadroddodd yr uchelgais i ddefnyddio'r hyn a ddysgir o’r cynllun peilot yn Lloegr ar asesu iechyd meddwl, a gellir cyflwyno hynny wedyn i Grŵp Cynghori’r Gweinidog. Ychwanegodd DR y byddai'n broblemus i bobl ifanc gael pecyn gofal ac yna darganfod na ellid ei ddarparu.

Gofynnodd Simon Jones a yw pobl ifanc wedi mynegi sut yr hoffen nhw weld yr asesiadau'n digwydd, ac awgrymodd fod gwedd feddygol ar y broses yn hytrach na gwedd gymdeithasol a chefnogol. Dywedodd CD fod pobl ifanc eisiau model mwy 'dynol', cyfle i feithrin perthnasoedd, a chael gwasanaethau sydd ar gael iddynt pan fo angen ymyrraeth mewn argyfwng arnynt.

Nododd Sian Thomas fod rhianta corfforaethol wedi bod ar yr agenda ers cryn amser a bod mwy o blant mewn gofal nag erioed o'r blaen. Gofynnodd a oes gan sefydliadau syniadau penodol ynglŷn â’r hyn sydd angen ei newid i gael ymrwymiad. Tynnodd CD sylw at y ddeddfwriaeth rhianta gorfforaethol yn yr Alban a nododd yr angen am ymrwymiad gan y Gweinidog a lefel uchaf y Byrddau Iechyd.

Awgrymodd DM fod angen i wahanol asiantaethau statudol chwarae rôl sylfaenol. Nododd fod gan Aelodau'r Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae, a phwysleisiodd y profiad y mae Dan Pitt, Is-gadeirydd Grŵp Cynghori’r Gweinidog, yn ei gynnig i’r trafodaethau, ac yntau’n ymadawr gofal ei hun.

Soniodd Paula Foley fod iechyd mewn seilo rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. O ran iechyd, nododd ei bod yn anodd dod o hyd i hyblygrwydd mewn perthynas â gwasanaethau eraill. Ychwanegodd Chris ei rwystredigaeth nad yw rhai pobl ifanc yn gallu cyrchu gwasanaethau a allai fod wedi bod ar gael iddynt o'r blaen. Tynnodd sylw at estyniad Llywodraeth Cymru i alluogi i ymadawyr gofal hyd at 25 oed gael cynghorydd personol.

Cyfeiriodd Graham Hinchey at ddigwyddiad yr aethai iddo’r noson flaenorol ar rianta corfforaethol a'r angen i beidio â siarad am wleidyddiaeth. Ychwanegodd fod angen i'r rhai sydd â'r awdurdod i newid y ffordd y mae Cymru yn gweithio ddod at ei gilydd, a bod rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â’r hyn y mae rhianta corfforaethol yn ei olygu mewn gwirionedd.

Awgrymodd y dylai Aelodau'r Cynulliad ofyn sut y mae arian yn cael ei wario yn eu hardaloedd o ystyried y £15 miliwn a ddyranwyd gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac y dylent ddarganfod pa wasanaethau therapiwtig sydd ar gael y gellid eu hymgorffori yn y cynlluniau cymorth.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25.